

At: Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: Dydd Gwener, 20 Ionawr  
2014

Rhif Union: 01824712589

ebost: dcc\_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD LLUN, 27 IONAWR 2014** am **2.00 pm** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

## AGENDA

### RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD

#### 1 YMDDIHEURIADAU

#### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### 3 MATERION BRYG FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryg yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD** (Tudalennau 5 - 6)

Nodi ymrwymiadau dinesig a ymgwymerwyd gan Gadeirydd y Cyngor (copi ynghlwm).

**5 COFNODION** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn Cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd 3 Rhagfyr 2013.

**6 DR HIGSON, CADEIRYDD BWRDD BIPBC YN BRESENNOL**

Yn dilyn Rhybudd o Gynnig yng nghyfarfod y Cyngor ar 5 Tachwedd 2013, a gohiriad dilynol o gyfarfod y Cyngor ar 3 Rhagfyr, bydd Dr Higson, Cadeirydd Bwrdd BIPBC yn rhoi cyflwyniad ar lafar ar gynlluniau'r dyfodol i'r Bwrdd a'r Gwasanaeth Iechyd ar draws Gogledd Cymru.

**7 CYLLIDEB 2014/2015** (Tudalennau 15 - 28)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi ynghlwm) yn rhoi diweddariad ar y broses o bennu'r gyllideb ac yn manylu ar gynigion i gael eu cymeradwyo gan y Cyngor Sir i osod cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2014/2015.

**8 CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR** (Tudalennau 29 - 40)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi ynghlwm) i aelodau nodi a mabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) (Diwygio) 2013 a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru)(Diwygio) 2014.

**9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR** (Tudalennau 41 - 44)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Ian Armstrong  
Raymond Bartley  
Brian Blakeley  
Joan Butterfield  
Jeanette Chamberlain-Jones  
William Cowie  
Ann Davies  
James Davies  
Meirick Davies  
Richard Davies  
Stuart Davies

Gwyneth Kensler  
Geraint Lloyd-Williams  
Margaret McCarroll  
Jason McLellan  
Barry Mellor  
Win Mullen-James  
Bob Murray  
Peter Owen  
Dewi Owens  
Merfyn Parry  
Paul Penlington

Peter Duffy  
Peter Arnold Evans  
Hugh Evans  
Bobby Feeley  
Carys Guy  
Huw Hilditch-Roberts  
Martyn Holland  
Colin Hughes  
Rhys Hughes  
Hugh Irving  
Alice Jones  
Huw Jones  
Pat Jones

Arwel Roberts  
Gareth Sandilands  
David Simmons  
Barbara Smith  
David Smith  
Bill Tasker  
Julian Thompson-Hill  
Joe Welch  
Cefyn Williams  
Cheryl Williams  
Eryl Williams  
Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Eitem Agenda 4

## Digwyddiadau wedi eu mynychu gan y Cadeirydd / Events attended by Chairman

29.11.13 – 21.01.14

Dyddiad / Date	Digwyddiad / Event	Lleoliad / Location
29.11.13	Parti Nadolig i Ofalwyr Maeth Foster Carers Christmas Party	Rhyl
30.11.13	Ffair Nadolig Sant Cyndeyrn St Kentigern's Christmas Fair	Capel y Waen Waen Chapel
30.11.13	Cydnabod Cyflawniadau Pobl Ifanc Recognise Young People's Achievements Is Gadeirydd wedi mynychu Vice Chair attended	Prestatyn
30.11.13	Cyngerdd Dathlu 25 mlynedd Cor Meibion Dinbych 25 <sup>th</sup> Anniversary Concert Denbigh Male Voice Choir	Llanelwy St Asaph
04.12.13	Ffair Nadolig - Criw Potensial Christmas Fair - Potensial Programme	Coleg Rhyl Rhyl College
05.12.13	CCB Sant Cyndeyrn St Kentigern AGM	Llanelwy St Asaph
05.12.13	Cyflwyno gwobrau i Ddisgyblion Ysgolion Cynradd Present prizes to Primary School Pupils	Rhuthun Ruthin
05.12.13	Pantomeim 'Aladdin' Pantomime	Rhyl
08.12.13	Oedfa Nadolig Sant Cyndeyrn St Kentigern Christmas Service	Capel y Waen Waen Chapel
10.12.13	Dathliad Nadolig CSDd DCC Christmas Celebration	Llanelwy St Asaph
12.12.13	Cinio Nadolig Elusennol Cadeirydd Conwy Chairman of Conwy's Christmas Charity Lunch	Llandudno
13.12.13	Gwasanaeth Nadolig Ysgol Plas Brondyffryn Ysgol Plas Brondyffryn Christmas Concert	Dinbych Denbigh
18.12.13	Agoriad Swyddogol Ysgol Dyffryn Iâl Official Opening of Ysgol Dyffryn Iâl	Llandegla
16.01.14	Gwasanaeth Dinesig Citizenship Ceremony	Rhuthun Ruthin
17.01.14	Dathliad 'Cynnig' 'Cynnig' Celebration	Dinbych Denbigh

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 3 Rhagfyr 2013 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Raymond Bartley (Cadeirydd), Brian Blakeley (Is-Gadeirydd), Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, Ann Davies, James Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Margaret McCarroll, Jason McLellan, Bob Murray, Dewi Owens, Merfyn Parry, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd (GW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PMcG), Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol (PMcH), Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol (CR), Arbenigwr Cysylltiadau Gweithwyr (GH), Rheolwr Gwasanaethau Democraidd (SP) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

**Hefyd yn bresennol:** Cyfarwyddwr Ian Jeffcott Associates Ltd.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwyr(wyr) Ian Armstrong, Peter Duffy, Carys Guy, Colin Hughes, Rhys Hughes, Pat Jones, Barry Mellor, Win Mullen-James, Peter Owen a/ac Paul Penlington

## CROESO

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Cyngor.

Croesawyd y Cyngorydd Alice Jones yn ôl i'r Cyngor.

Dyweddodd y Cyngorydd Julian Thompson-Hill bod y Cyngorydd Peter Owen yn yr ysbyty ers echdoe. Cytunwyd i anfon cerdyn ato gan yr Aelodau i ddymuno gwellhad buan.

Dyweddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd nad yw'r cyfieithydd ar y pryd arferol yn gallu dod i gyfieithu heddiw oherwydd argyfwng teuluol. Fodd bynnag, mae Sandra Williams wedi dod yn ei lle ond mae hi'n gorfod gadael am 2pm oherwydd ymrwymadau gwaith eraill. Byddwn yn ymdrechu i gael cyfieithydd yn lle Sandra am 2pm.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at Eitem 7 ar yr Agenda a dywedodd nad oedd modd i Dr

Higson, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, fod yn bresennol heddiw. Roedd Dr Higson wedi ei wahodd i'r cyfarfod heddiw ac wedi cadarnhau y bydd yn mynychu sesiwn y bore. Mae angen llunio rhestr fer ar gyfer swydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'n bur debyg y bydd y broses honno yn para trwy'r bore. Felly, ni fyddai digon o amser i Dr Higson roi cyflwyniad i'r Cyngor Llawn. Felly mae Dr Higson wedi ei wahodd i fynychu'r cyfarfod nesaf (rydym ni'n aros am gadarnhad).

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai sesiwn y bore yn para tan oddeutu 12:30. Bydd egwyl o dri chwarter awr cyn ailymgynnull ar gyfer sesiwn y prynhawn.

## **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim.

## **3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Dim.

## **4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD**

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 28 Mehefin 2013 a 28 Awst 2013 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD** derbyn a nodi'r rhestr o ymrwymadau dinesig a fynychwyd ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.*

## **5 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2013.

Tudalen 14 – Eitem 11 - Dywedodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies nad oedd wedi pleidleisio yn erbyn Rhybudd o Gynnig ei grŵp gwleidyddol (mae'r cofnodion yn nodi ei fod wedi pleidleisio yn erbyn).

Cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y byddai'n edrych ar y daflen bleidlais.

***PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2013 fel cofnod cywir.*

## **Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

It was **resolved** that, under Section 100A of the Local Government Act, 1972, the press and public be excluded from the meeting for the following item of business on the grounds of the likely disclosure of exempt information as disclosed in paragraphs 12 and 13 of Part 4 of Schedule 12A of the Local Government Act 1972.



## 6 PENODI CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Amlinellodd y Prif Weithredwr bwrpas y swydd a sut y byddai'n integreiddio gyda thîm rheoli'r Cyngor. Soniodd Ian Jeffcott, ymgynghorydd recriwtio'r Cyngor, am y broses recriwtio a oedd yn cynnwys canolfan asesu a phanel penodi arbennig o aelodau i lunio rhestr fer o'r ymgeiswyr cymwys ar gyfer y Cyngor Llawn heddiw. Mae'r Panel wedi cyflwyno dau ymgeisydd er ystyriaeth y Cyngor Llawn.

Rhoddodd y ddau ymgeisydd cyflwyniadau i'r Cyngor ac ateb y cwestiynau a osodwyd.

Amlinellodd yr ymgynghorydd recriwtio ganlyniadau'r profion a gynhaliwyd fel rhan o'r broses asesu. Cafodd y cynnig i gynnal pleidlais gudd ei basio gan y Cyngor yn unol â'r rheolau sefydlog.

**PENDERFYNWYD** - penodi Nicola Stubbins fel Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

## RHAN I - PARHAODD Y CYFARFOD MEWN SESIWN AGORED

### 7 PRESENOLDEB DR HIGSON, CADEIRYDD BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

Fel yr esboniwyd yn gynharach gan y Prif Weithredwr, mae'r eitem hon wedi ei gohirio tan gyfarfod nesaf y Cyngor ym mis Ionawr 2014.

### 8 CYNLLUN CYFALAF

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, yr Adroddiad ar Gynllun Cyfalaf 2013 - 2018 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor ynghylch y Cynllun Cyfalaf, gan gynnwys prosiectau mawr a'r Cynllun Corfforaethol.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at y ffaith nad oes adroddiad ar Gynllun Cyfalaf 2013/14 - 2017/18 wedi ei gyflwyno i'r Cyngor ers mis Ebrill 2013 pan bennwyd Cyllideb 2013/14. Rhoddwyd diweddariadau i'r Cabinet pob mis.

Cafwyd trafodaeth a gofynnwyd nifer o gwestiynau gan yr Aelodau. Cadarnhawyd:-

- Disgwylir y bydd y gwaith ar y bont yn Llanelwy wedi ei gwblhau cyn diwedd yr haf. Mae dyraniad bloc o £1.3 miliwn wedi ei ddarparu ar gyfer y gwaith ac felly nid oes ffigwr wedi ei ddyrannu ar gyfer 2014/15. w
- Mae gorwariant wedi digwydd oherwydd yr amser a gymerwyd i adleoli tenantiaid gwreiddiol adeilad newydd Llyfrgell Prestatyn. Mae hen adeilad y llyfrgell ar Ffordd Nant Hall wedi bod yn destun opsiynau posibl. Mae cais wedi dod i law gan denant posibl sy'n holi ynghylch prydlesu rhan o'r adeilad. Bydd y prosiect yn mynd gerbron y Grŵp Rheoli Asedau yn y Flwyddyn Newydd.

- Yn y cyfarfod Bwrdd Prosiect diwethaf, dyrannwyd arian ar gyfer yr Harbwr Feistr i brynu offer i redeg y gwasanaeth. Nid yw prynu cerbyd 4 x 4 wedi ei gynnwys o fewn yr offer angenrheidiol.
- Ni fydd trafodaeth ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn ystod y cyfarfod hwn. Bydd y mater yn cael ei drafod yn ystod y Gweithdy Cyllideb ar 9 Rhagfyr 2013.

**PENDERFYNWYD** bod yr Aelodau'n nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ar elfen 2013/14 o'r Cynllun Cyfalaf a'r diweddariad ar y prosiectau mawr.

## 9 CYNIGION CYLLIDEBOL AR GYFER 2014/15

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau, y Cynghorydd Julian Thompson Hill, Adroddiad Cyllideb Refeniw 2014/15 (a ddsbarthwyd yn flaenorol) i ddarparu diweddariad ar y sefyllfa gyllideb ddiweddaraf ar gyfer 2014/15 ac i gymeradwyo'r cynigion ar gyfer arbedion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu'r rhan fwyaf o arian y Cyngor drwy'r Grant Cynnal Refeniw a thrwy aiddosbarthu Trethi Annomestig Cenedlaethol.

Cyhoeddwyd Setliad Drafft Llywodraeth Leol Cymru 2014/15 ar 16 Hydref 2013. Roedd gan Gyngor Sir Ddinbych y setliad gwaethaf yng Nghymru, sef -4.6%. Mae mecanwaith amsugno wedi ei defnyddio i leihau'r effaith yn 2014/15 ond byddai hynny wedyn yn cael effaith yn 2015/16. Byddai angen arbedion o oddeutu £8.5 miliwn. Cymeradwywyd gwerth £1.7 miliwn o arbedion ym mis Hydref 2013. Cynhaliwyd Gweithdy Aelodau ar 21 Hydref 2013 lle cyflwynwyd arbedion pellach o £4.7 miliwn.

Mae £6.5 miliwn (76%) o'r targed arbedion wedi ei ganfod. Byddai'r £2 filiwn o arbedion sy'n weddill yn cael eu trafod yn y Gweithdy nesaf ar 9 Rhagfyr 2013 ac yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor er cymeradwyaeth ym mis Chwefror 2014.

Codwyd y materion canlynol yn dilyn trafodaeth:-

- O ran yr arbedion a gynigwyd gan Briffyrdd a Rheoli Gwastraff y Gwasanaeth Amgylcheddol, un cynnig yw peidio â chasglu gwastraff bin gwyrdd rhwng 1 Tachwedd a diwedd mis Mawrth. Byddai'n caniatáu dyrannu cerbydau a staff i ardaloedd eraill ar adeg pan nad yw'r mwyafrif o bobl yn rhoi eitemau yn eu bin gwyrdd.
- Bydd Grŵp Tasg a Gorffen, sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau staff, yn ystyried sut gellir arbed £50,000. Byddai pob defnyddiwr gwasanaeth a theulu yn cael gwybod am unrhyw newid.
- Bydd lechyd Meddwl Oedolion yn cael ei drin yn bennaf drwy'r GIG. Bydd cyflwyno arbedion yn anodd heb effeithio ar y rheng flaen.
- Hawliau Lles – mae cost ynghlwm wrth bob dull o siarad neu ddelio â chleient. Bydd arbedion yn cael eu dadansoddi.
- Gwella ysgolion a chynhwysiad mewn perthynas â cherddoriaeth a'r celfyddydau - Canolfan William Mathias i fod yn gyfrifol am y cylch gwaith cyfan. Mae William Mathias yn darparu cerddoriaeth beripatetig i ysgolion yn Sir Ddinbych. O fewn y cytundeb lefel gwasanaeth, roedd angen gwybod dos

sefydliad William Mathias yn creu cyfleoedd ac yn darparu gwerth am arian. Er y byddai arbedion effeithlonrwydd yn rhan o'r adolygiad, yr oedd yn ymwneud â chryfhau darpariaeth ac nid ei leihau.

- O ran darpariaeth y bws melyn. Ni fyddai'r bws yn cael ei ddisodli a bydd y gwasanaeth yn mynd allan i gontract.
- Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ynglŷn â chau Ysgol Llanbedr. Mae'r data wedi ei rhannu dros ddwy flwyddyn ariannol ar sail yr ymgynghoriad tybiedig, gyda'r argymhelliad i gau'r ysgol yn cael ei ddwyn ymlaen fel rhan o'r arbedion yn 2014/2015 a 2015/2016. Os nad yw'r argymhelliad i gau'r ysgol yn cael ei ddwyn ymlaen yna byddai'r arbediad yn cael ei ddileu o'r system.

**PENDERFYNWYD** bod yr Aelodau'n nodi'r sefyllfa gyllideb ddiweddaraf ar gyfer 2014/15 ac yn cymeradwyo'r arbedion a restrwyd.

## 10 ASESAD O ANGHENION LLETY SIPSIWN A THEITHWYR GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Chymunedau yr adroddiad uchod (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â'r Aseiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a gynhaliwyd gan Brifysgol Bangor.

Comisiynodd Cyngorau Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy, Ynys Môn a Gwynedd i Brifysgol Bangor gynnal gwaith ymchwil ac asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.

Mae ymagwedd ar y cyd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru sy'n annog "yr awdurdodau lleol i weithio'n rhanbarthol a rhannu'r cyfrifoldeb cyfreithiol, moesol, ariannol a gwleidyddol i ddelio ag anghydraddoldeb llety ar gyfer cymuned Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru" (Teithio at Ddyfodol Gwell, Llywodraeth Cymru).

Mae adroddiad Prifysgol Bangor yn argymhell bod yr Awdurdodau Lleol yn cydweithio i nodi a datblygu tri neu bedwar o safleoedd teithiol ar draws y rhanbarth gyda lle ar gyfer hyd at 7 carafán ym mhob maes. O ran darpariaeth statig, bydd yn rhaid i Gyngor Sir Ddinbych ddarparu dau faes preswyl i Sipsiwn a Theithwyr (gyda lle ar gyfer hyd at 4 carafán ar bob safle) ac un maes teithiol gyda lle ar gyfer hyd at 7 carafán dros dro - i'w datblygu yn isranbarthol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Y cyngor gan Wasanaethau Cyfreithiol Cyngor Sir Ddinbych yw y dylid mabwysiadu'r Aseiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr gan ei fod yn nodi anghenion llety yn Sir Ddinbych a bod gofyniad ar y Cyngor i ymateb i hyn. Mae'r gofyniad hwn ar awdurdodau lleol yn cael ei gryfhau ymhellach gan Lywodraeth Cymru yn y Papur Gwyn a fydd yn gorfodi Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle mae tystiolaeth o angen. Roedd yn bwysig bod y Cyngor yn trafod gyda Sipsiwn a Theithwyr i sicrhau bod y safleoedd fyddai'n cael eu cynnig yn diwallu eu hanghenion.

Petai'r Cyngor yn penderfynu datblygu darpariaeth safle yna byddai cost cyfalaf gan gynnwys caffael tir a darpariaeth gwasanaethau. Efallai y bydd modd ymgeisio am

grant gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, byddai'r grantiau wedi eu cyfyngu ac yn destun proses dendro.

Byddai angen ystyried cyfrifoldebau rheoli a goruchwyllo a fyddai'n rhan o broses werthuso safleoedd. Bydd opsiynau ar gyfer rheoli safle gan gynnwys a oes modd cynnal y gwasanaeth yn fewnol, allanol neu ddatblygu ymagwedd ar y cyd yn cael eu hystyried fel rhan o ddewisiadau gwerthuso. Hefyd, gall y posibilrwydd o Sipsiwn a Theithwyr yn prynu eu safleoedd eu hunain helpu Cyngor Sir Ddinbych i ganfod safleoedd addas o fewn cyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol. Nid oes unrhyw safle wedi ei adnabod eto, a bydd yn rhaid i unrhyw safle gael ei gefnogi gan achos busnes.

Cyflwynwyd Adroddiad Asesiad o Anghenion Llety Teithwyr a Sipsiwn i'r Pwyllgor Archwilio ar 17 Hydref 2013, ond cafodd ei wrthod ar benderfyniad rhanedig. Roedd ar yr Aelodau eisiau mwy o fanylion am y costau cyfredol o ddelio â gwerylloedd anghyfreithlon a chostau sy'n gysylltiedig â darparu lleiniau yn unol â'r Asesiad o Anghenion Llety Teithwyr a Sipsiwn. Byddai derbyn yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i gynorthwyo Aelodau i wneud penderfyniadau.

Yn dilyn trafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol gan yr Aelodau:

- Cwestiynwyd yr angen am wersylloedd cyfreithiol oherwydd materion ynglŷn â lleoliad y safleoedd pe bai'r cynlluniau yn mynd eu blaenau.
- Beth fyddai'r canlyniadau os nad yw Sir Ddinbych yn cytuno â'r argymhelliad?

Ymatebodd y Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol:

- Mae nifer y gwerylloedd anghyfreithlon yn dangos yr angen i gael safleoedd cyfreithiol yn y sir. Bydd cynnydd tebygol yn nifer y gwerylloedd Sipsiwn a Theithwyr os bydd yn cymryd llawer o amser i sefydlu safleoedd cyfreithiol.
- Roedd Llywodraeth Cymru wedi datgan mai cyfrifoldeb yr Awdurdodau Lleol yw'r angen o fewn eu siroedd. Mae Sir Ddinbych, ynghyd ag Awdurdodau Lleol eraill yng ngogledd Cymru, wedi defnyddio Prifysgol Bangor a ddarparodd dystiolaeth annibynnol sy'n datgelu'r angen am y safleoedd hyn. Roedd Llywodraeth Cymru wedi disgwyl i Gyngorau gogledd Cymru weithredu ar y dystiolaeth a ddarparwyd yn yr Adroddiad.
- Mae disgwyl i'r ddeddfwriaeth newydd gael ei phasio yn ystod haf 2014.
- Bydd trafod gyda Sipsiwn a Theithwyr yn hollbwysig er mwyn sicrhau y byddai safleoedd a ddarparwyd yn addas i'r diben.
- Byddai unrhyw safle a argymhellir yn amodol ar y broses gynllunio lawn.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod gan Sir Ddinbych gyfrifoldeb i ddarparu safleoedd ac y byddai'r Cyngor yn cael ei herio pe tai Aelodau yn gwrthod yr argymhelliad.

Gofynnodd y Cyngorydd Stuart Davies am bleidlais ar y rhan gyntaf o'r argymhelliad (3.1 yr adroddiad) a chytunwyd i gynnal pleidlais.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid cymeradwyo argymhelliad 3.1:

y Cyngorwyr Raymond Bartley, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Cowie, Ann Davies, Hugh Evans, Bobby Feeley, Martyn Holland, Hugh Irving, Margaret McCarrol, Jason McLellan, Dewi Owens, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Cheryl Williams, Eryl Williams a Huw Williams.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn argymhelliad 3.1:

y Cyngorwyr Meirick Lloyd Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Evans, Huw Hilditch-Roberts, Bob Murray, Merfyn Parry, Joe Welch a Cefyn Williams.

Ymatalodd yr Aelodau canlynol rhag pleidleisio:

y Cyngorwyr Alice Jones, Gwyneth Kensler ac Arwel Roberts.

**PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn cymeradwyo Argymhellion Adroddiad o Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Prifysgol Bangor o ran:

- (i) Bydd yn rhaid i Gyngor Sir Ddinbych ddarparu 2 faes preswyl i Sipsiwn a Theithwyr (gyda lle ar gyfer hyd at 4 carafán ar bob safle) ac un maes teithiol gyda lle ar gyfer hyd at 7 carafán dros dro – i'w datblygu yn isranbarthol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; a
- (ii) Cefnogi cyfansoddiad a chylch gwaith arfaethedig y Grŵp Llywio, fel yr amlinellir yn Atodiad 2 o'r adroddiad i'r Cyngor, i yrru'r argymhellion yn eu blaen ac i baratoi cynllun busnes yn unol â hynny.

## 11 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cyngorydd Hugh Evans y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

“Mae Cyngor Sir Ddinbych yn pryderu am Adolygiad Llywodraeth Leol gan y gall danseilio darpariaeth gwasanaeth i'w drigolion, effeithio ar forâl staff a gallai gostio mwy i'w weithredu nag y byddai'n ei arbed.

Fodd bynnag, mae'r cyngor yn cydnabod, yn dilyn y sylwadau diweddar gan y Prif Weinidog ac aelodau Comisiwn y Gwasanaethau Cyhoeddus, bydd aildrefnu Llywodraeth Leol yn anochel.

Os bydd y Llywodraeth Leol yn cael ei aildrefnu yng ngogledd Cymru yna byddai'r Cyngor yn cefnogi datrysiad tri Cyngor fel y dewis gorau ar gyfer trigolion yr ardal. Mae'r Cyngor hefyd yn gofyn i Lywodraeth Cymru sicrhau na fydd cynrychiolaeth wleidyddol Gogledd Cymru yn lleihau”.

Cafwyd trafodaeth a chynigwyd ac eiliwyd y Rhybudd o Gynnig.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r Cyngor, o ran y Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cyngorydd Hugh Evans, yn hyrwyddo datrysiad tri Chyngor ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw cynrychiolaeth wleidyddol gogledd Cymru yn lleihau.

## 12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd eisoes).

Bydd cyfarfod y Cyngor a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer 4 Chwefror 2014 yn symud i Friffio'r Cyngor ar 27 Ionawr.

Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod y newidiadau ar 28 Ionawr ac mae angen i ni fabwysiadu'r newidiadau erbyn diwedd Ionawr 2014.

***PENDERFYNWYD*** y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor, yn amodol ar yr uchod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.40pm.**

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Cyngor Sir</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>27 Ionawr 2014</b>
<b>Aelod Arweiniol/Swyddog:</b>	<b>Julian Thompson-Hill/Paul McGrady</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Paul McGrady, Pennaeth Cyllid ac Asedau</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Cyllideb 2014/15</b>

---

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y broses o bennu'r gyllideb ac mae'n egluro cynigion i osod cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2014/15.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor bennu cyllideb gytbwys y mae modd ei chyflawni cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a gosod y lefel o ganlyniad o ran Treth y Cyngor i ganiatáu i filiau gael eu hanfon at breswylwyr.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig cyllideb ar gyfer 2014/15 fel y dangosir yn Atodiad 1.

Bod y Cyngor yn cymeradwyo cynnydd o 3.5% yn lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2014/15.

## **4. Manylion am yr Adroddiad**

Dangosodd dadansoddiad o Setliad Drafft Llywodraeth Leol a chanlyniadau hynny i'r cyngor y gallai fod angen arbedion o tua £8.5m. Cadarnhawyd hyn yn y Setliad Terfynol a dderbyniwyd ym mis Rhagfyr.

Mae'r broses o osod cyllideb wedi arwain at arbedion o £1.7m hyd yma ar gyfer 2014/15 a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ym mis Medi (Cam 1) ac arbedion o £4.7m (Cam 2) ar 3 Rhagfyr. Mae manylion yr arbedion hyn ynghlwm fel Atodiad 2.

Roedd arbedion Cam 1 yn eitemau a oedd wedi eu cynnig fel rhan o broses Herio Gwasanaethau 2012/13 a 2013/14 ac wedi eu trafod yn unol â hynny. Cyflwynwyd arbedion Cam 2 mewn gweithdy cyllideb ar gyfer aelodau ar 21 Hydref a chyflwynwyd pob cais gan aelodau cabinet arweiniol, yn rhoi manylion am yr arbediad, am yr effaith ac asesiad o'r risg. Hon oedd yr ail o dri gweithdy cyllideb a gynhaliwyd i lywio'r drafodaeth ynghylch cyllideb 2014/15. Yn dilyn y gweithdy, gwahoddwyd aelodau etholedig gan yr Aelod

Arweiniol dros Gyllid ac Asedau a'r Pennaeth Cyllid ac Asedau i roi sylwadau ar unrhyw un o'r cynigion cyn cyfarfod y cyngor ym mis Rhagfyr.

Mae Cam 1 a 2 wedi dynodi arbedion o £6.459m hyd yma, gan adael bwllch o tua £2.0 miliwn i'w ganfod. Roedd y bwllch hwn yn ffocws trydydd gweithdy cyllideb a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr.

Roedd 31 o aelodau yn bresennol yn y digwyddiad. Dosbarthwyd y papurau a gyflwynwyd yn y gweithdy ymlaen llaw i'r holl aelodau ac maent wedi eu cyhoeddi ar Modern.gov ac maent ar gael, felly, i bob aelod eu gweld.

Prif thema'r gweithdy oedd cyflwyno manylion ac opsiynau i gael eu hystyried i bontio'r bwllch £2m yn y gyllideb ar gyfer 2014/15.

Roedd y wybodaeth allweddol a gyflwynwyd yn cynnwys:

- Diweddariad ar y sefyllfa yn ystod y flwyddyn o ran cyllidebau gofal cymdeithasol ac addysg
- Dadansoddiad o gyllid ysgolion
- Opsiynau i gynyddu cyllidebau ysgolion
- Adolygiad o falansau a chronfeydd wrth gefn
- Diweddariad ar y Cynllun Corfforaethol
- Opsiynau Treth y Cyngor
- Cynigion Arbedion Ychwanegol
- Argymhelliad i gydbwysu'r gyllideb

Mae Atodiad 1 yn dangos manylion y cynigion i bontio'r bwllch £2m. Mae'r cynigion arbedion ychwanegol ar gyfer 2014/15 yn ymwneud â dwyn ymlaen arbedion a nodwyd yn flaenorol ar gyfer 2015/16 ac maent yn dod i gyfanswm o £395mil. O'r swm hwn, mae £95mil yn ymwneud â dwyn ymlaen ailstrwythuro mewn Cynllunio Busnes a Pherfformiad ac mae £300mil yn ymwneud â'r bwriad o gael gwared â'r cyfraniad a gyllidebwyd i falansau flwyddyn yn gynt nag a gynlluniwyd yn wreiddiol. Roedd yr argymhelliad yn cynnwys cynnig i ddefnyddio balansau cyffredinol fel rhan o'r gyllideb yn 2014/15. Er bod y gweithdy yn ddigwyddiad anffurfiol, roedd derbyniad yn gyffredinol i'r argymhelliad i gydbwysu'r gyllideb ac roedd angen trafodaeth bellach ar lefel y cynnydd yn Nhreth y Cyngor.

Bydd yn rhaid i gynigion gogyfer â chyllideb derfynol a lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2014/15 gael eu cytuno gan y Cyngor Sir fis Chwefror 2014. Yn y gweithdy cyllideb ddiweddaraf, mynegwyd rhai safbwyntiau yn anffurfiol am yr hyn y dylai lefel y cynnydd yn Nhreth y Cyngor fod. Mae'r opsiynau a'r goblygiadau wedi eu nodi yn y tabl isod:



Cynnydd	Cynnydd gros	Budd-dal Treth y Cyngor	Cynnydd net	Incwm Ychwanegol
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
2.75%	1,119.31	-279.83	839.48	-228.95
3.00%	1,221.06	-305.27	915.80	-152.63
3.50%	1,424.57	-356.14	1,068.43	0.00
4.00%	1,628.08	-407.02	1,221.06	152.63

Mae'r tabl yn dangos ar gynnydd o 3.5%, mae'r gyllideb yn gytbwys. Yn y gweithdy gyllideb, roedd trafodaeth ynghylch lefel Treth y Cyngor gyda rhai aelodau'n gofyn am ystyried lefel is.

Mae Atodiad 1 yn dangos y cynigion arbedion ac mae'n amlwg y bydd gwasanaethau yn ei chael hi'n anodd cyflawni unrhyw arbedion pellach yn 2014/15 ar hyn o bryd. Byddai hyn yn gadael balansau fel yr unig ffynhonnell cyllid i lenwi unrhyw fwlch sy'n cael ei adael gan Dreth y Cyngor is.

Mae'r cynigion yn Atodiad 1 eisoes yn cynnwys defnyddio £500m o falansau a dileu'r gyllideb sy'n 'ychwanegu at' ein balansau bob blwyddyn. Mae pwysigrwydd lefelau priodol balansau wedi cael ei amlygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda digwyddiadau llifogydd mawr yn Rhuthun, Llanelwy a'r Rhyl a phroblemau ar draws y sir gydag eira yn ogystal â hawliad mawr annisgwyl gan ein cwmni yswiriant blaenorol. Ym mhob achos rydym wedi gallu ymateb yn briodol gan wybod bod arian ar gael i dalu am unrhyw ymateb a gwaith dilynol. Gyda'r ansicrwydd ynghylch dyfodol llywodraeth leol a digwyddiadau cynyddol o dywydd gwael, nid yw lleihau balansau ymhellach y dull mwyaf dymunol o weithredu.

Hefyd, nid yw'r defnydd o falansau'n datrys y broblem sylfaenol - dim ond defnyddio arian parod i lenwi'r twll parhaol yng nghyllid y Cyngor dros dro ac felly'n gohirio'r broblem tan ddiwrnod arall. Nid yw'r gyllideb ar gyfer 2014/15 yn caniatáu ar gyfer unrhyw bwysau cost sy'n benodol i wasanaethau. Mae chwyddiant wedi ei adeiladu i mewn i dybiaethau'r gyllideb yn gorfforaethol i gynnwys eitemau megis ynni, cyflog a chostau pensiwn cyflogwr ychwanegol. Mae buddsoddi mewn blaenoriaethau wedi'i gynnid ar lefel o £750mil. Mae cyflwyno'r Cynllun Corfforaethol yn dibynnu ar gyllideb ac adnoddau arian parod i hwyluso Benthyca Darbodus. Y dyraniad arfaethedig o ran cyllid buddsoddi ar gyfer 2014/15 yw:

	£'000
Moderneiddio Addysg/Ysgolion yr 21ain Ganrif	650
Priffyrdd – Gwelliannau Ffyrdd	100
	<hr/>
	<b>750</b>

Mae'r buddsoddiad mewn addysg yn cynnwys £318mil o arbedion a gytunwyd gydag ysgolion fel rhan o'r arbedion cyllideb Cam 2. Mae'r dyraniad i Briffyrdd yn arian cyfatebol i'r dyraniad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i hwyluso benthyca ar gyfer gwelliannau ffyrdd.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol o gyllideb refeniw a chyfalaf y cyngor a darparu strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni'n sail i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

Mae'r cynigion cyllideb yn cynnwys nawdd o £750k ar gyfer Ysgolion y 21ain Ganrif, Moderneiddio Addysg a gwella Priffyrdd yn unol â'r Cynllun Corfforaethol.

## **6. Faint fydd cost hyn a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Y targed ar gyfer arbedion yn 2014/15 yw £8.5m. Bydd cyllideb refeniw net y Cyngor yn £187m o'i gymharu â £191m yn 2012/13. Y gostyngiad arian parod yn setliad refeniw'r cyngor gan Lywodraeth Cymru yw -4.6%.

## **7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal?**

Cyn cael cymeradwyaeth y Cyngor Sir, mae'r arbedion sydd wedi eu cytuno hyd yma wedi eu trafod gyda Phenaethiaid Gwasanaeth ac Aelodau Arweiniol, wedi eu cyflwyno mewn gweithdai cyllideb ar gyfer aelodau ac wedi eu dosbarthu i staff. Mae'r cynigion terfynol i gydbwyso'r gyllideb wedi'u trafod yn fanwl mewn gweithdy aelodau ac mae aelodau wedi cael cyfle i godi materion cyn i'r adroddiad terfynol fynd i'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi cael diweddariadau rheolaidd gan fod ganddo swyddogaeth i gadw trosolwg o'r broses gyllidebu. Cytunodd y Cabinet i argymhell y cynigion yn yr adroddiad hwn i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr 2014.

Dyma'r trydydd adroddiad ffurfiol gydag argymhellion cyllideb. Mae'r ddau flaenorol wedi bod trwy weithdai, y Cabinet a'r Cyngor llawn ac wedi cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

## **8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r cyngor yn wynebu heriau ariannol sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r gyllideb fel y'i cynigir yn realistig ac yn gyraeddadwy. Mae'n gwneud arbedion digonol i gydbwyso ein sefyllfa, yn diogelu gwasanaethau rheng flaen rhag gostyngiadau mawr ac yn caniatáu buddsoddiad o £750mil i flaenoriaethau'r Cyngor.

Nid yw defnyddio'r balansau fel y cynigir yn ddelfrydol, ond mae'n rhoi ychydig o le i ni ddatblygu cynigion cynilo pellach ar gyfer 2015/16. Bydd gan y Cyngor falansau digonol o hyd i ddelio ag unrhyw argyfyngau rhesymol.

## **9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Os na chytunir ar y gyllideb o fewn yr amserlen berthnasol, yna bydd y Cyngor yn torri'r gyfraith. Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi'i wynebu a bydd methu â chyflawni'r strategaeth gyllidol y cytunwyd arni yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a thros y blynyddoedd ariannol sydd i ddod. Bydd monitro'r gyllideb yn rheolaidd ac adrodd yn fuan am unrhyw amrywiad yn helpu i sicrhau y cyflawnir y strategaeth ariannol.

Mae proses y gyllideb a rhagdybiaethau'r cynllun ariannol tymor canolig yn risgiau sydd wedi eu nodi yn y cofrestrau risg corfforaethol ac adrannol. Caiff y gofrestr risg gorfforaethol a chamau lliniarol eu hadolygu'n rheolaidd gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol.

## **10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu cyllid.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Additional Budget Savings 2014/15  
14 January 2014

Equality Impact Assessment

# Additional Budget Savings 2014/15

Contact: Paul McGrady

Updated: 14 January 2014

## 1. What type of proposal / decision is being assessed?

Other

## 2. What is the purpose of this proposal / decision, and what change (to staff or the community) will occur as a result of its implementation?

Sets out required savings for 2014/15

## 3. Does this proposal / decision require an equality impact assessment? If no, please explain why.

*Please note: if the proposal will have an impact on people (staff or the community) then an equality impact assessment **must** be undertaken*

Yes

Most of the proposals are of a technical nature and do not affect any groups with protected characteristics. The only proposal that may impact on specific groups is the proposal to increase Council Tax.

## 4. Please provide a summary of the steps taken, and the information used, to carry out this assessment, including any engagement undertaken

*(Please refer to section 1 in the toolkit for guidance)*

Workshops undertaken with Councillors. There is no requirement to publicly consult on Council Tax proposals.

## 5. Will this proposal / decision have a positive impact on any of the protected characteristics (age; disability; gender-reassignment; marriage and civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation)?

*(Please refer to section 1 in the toolkit for a description of the protected characteristics)*

No

